


# Gyrfaoedd gwerth chweil yn helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

Clybiau ar ôl Ysgol

Gwarchodwyr Plant Cofrestredig

Gwaith Chwarae

Meithrinfeydd Dydd

Ysgolion

Cylchoedd Chwarae/ Cylchoedd Meithrin

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Dyddiad cyhoeddi: 28/8/2007 ISBN: 978 0 7504 4392 0



# Heddiw rydyn ni'n hedfan o gwmpas y byd




i ble bydd eich swydd yn mynd â chi?

Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael mewn print bras, Braille neu ffurf clywedol.

# Gallwch fynd yn bell drwy helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

## Sector sy'n tyfu gyda chyfleoedd i bawb

Os buoch chi'n meddwl am ddod o hyd i swydd yn helpu plant i ddysgu, gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn ddefnyddiol iawn i chi. Cafodd ei gynhyrchu i roi darlun go iawn i chi o'r hwyl a'r her y gallwch eu disgwyl wrth weithio gyda phlant bychain.

Rydym yn trafod yr holl wahanol ddewisiadau gyrfa sydd ar gael i chi, yn rhoi cyngor ar y cymwysterau y bydd eu hangen arnoch ac yn egluro pa hyfforddiant sydd ar gael i'ch helpu i fynd ymhellach yn eich gyrfa newydd.

Ond yn bwysicach na dim, bydd y llyfryn hwn yn eich helpu i benderfynu a fydd swydd yn gweithio gyda phlant bychain yn addas i'r math o berson ydych chi. Wedi'r cyfan, bydd disgwyl i chi chwarae rhan allweddol ym mywydau'r plant o dan eich adain, a helpu i osod seiliau cadarn ar gyfer datblygiad pob plentyn yn eich gofal yn ystod y blynyddoedd cynnar hanfodol bwysig hyn.

Mae angen person arbennig iawn, sydd â sgiliau a rhinweddau i ateb y cyfrifoldebau hynny. Ond os yw'r pethau hyn gennych, mae'r cyfleoedd yno i chi eu cymryd.

## 2,300 o swyddi gwag newydd

Mae gan dros 26,000 o bobl yng Nghymru swyddi yn helpu plant ifainc i ddysgu drwy chwarae, ac mae'r nifer hwnnw ar fin codi'n syfrdanol.

Oherwydd mentrau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, bydd angen llenwi 2,300 o swyddi gwag newydd cyn 2008.

Mae'r sector yn tyfu ac yn datblygu bob dydd.
Yn union fel plant ifainc.

www.playlearngrowwales.gov.uk

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

# Ydych chi'n cael gwefr wrth helpu plant i ddarganfod ein byd?

## Mae gyrfa hwyliog a gwerth chweil yn disgwyl amdanoch

Ydych chi'n dda gyda phlant? Ydyn nhw'n ymlacio yn eich cwmni? Ydy hi'n hawdd i chi ddal eu dychymyg gyda gweithgareddau a chwarae rôl? Os felly, efallai eich bod wedi dod o hyd i'ch gwir alwedigaeth. Beth allai fod yn fwy gwerth chweil na threulio eich amser yn y gwaith yng nghwmni plant ifainc, yn eu helpu i ddysgu am eu hunain a'r byd o'u cwmpas?

Ond nid y boddhad anhygoel a gewch o'ch gwaith yn unig y byddwch yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Yn ogystal, bydd yr holl heriau y byddwch yn eu hwynebu bob dydd yn helpu i'w gwneud yn yrfa ddiddorol ac amrywiol.

Gadewch i ni gyfaddef y gwirionedd. Gall gweithio gyda phlant ofyn llawer – gofynnwch i unrhyw riant/gofalwr – a bydd adegau pan fydd angen i chi ymdrin â sefyllfaoedd yn broffesiynol ac yn llawn tosturi. Dyna pryd bydd eich natur ofalgar a'ch hyfforddiant yn cymryd drosodd a dyna pryd mae'r swydd yn werth chweil.

## Bydd angen gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) arnoch

Mae hwn yn fater arall pwysig i'w ystyried. Mae gofalu am blant yn gyfrifoldeb enfawr. Mae rhoi eich plentyn i rywun arall ofalu amdano yn gofyn am ymddiriedaeth enfawr.

Fel cymdeithas mae angen i ni sicrhau bod rheoliadau a rheolaeth ansawdd yn eu lle fel y gall pob plentyn ddysgu mewn amgylchedd diogel, gofalgar ac ysgogol. Am yr union reswm hwnnw mae'r gyfraith yn mynnu bod rhaid i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) eich gwirio cyn i chi ddechrau ar eich swydd newydd.

Mae'r un rheolau caeth yn berthnasol os ydych yn ystyried dechrau busnes gofal plant newydd. Allwch chi ddim gweithredu cyn i chi gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

# Heddiw rydyn ni'n mynd i jyngl yr ardd






i ble bydd eich swydd yn mynd â chi?

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow



Heddiw rydyn ni'n mynd i'r Eidal i goginio pitsas



i ble bydd eich swydd yn mynd â chi?

# Ychwanegwch hyfforddiant at eich doniau ac ewch ymhellach yn eich swydd

## Felly, pa sgiliau sydd eu hangen arnoch i weithio gyda phlant?

Wel, gadewch i ni'n gyntaf sôn am y sgiliau sydd gennych yn barod. Nid y cymwysterau cydnabyddedig fel TGAU, diplomâu neu raddau ond y sgiliau sy'n eich nodweddu chi. Hynny yw, eich gallu naturiol, eich egni diddiwedd, eich blaengaredd, eich sgiliau cyfathrebu, eich dawn greadigol a'ch dychymyg. Bydd y rhinweddau hyn i gyd o fantais fawr i chi, yn enwedig pan fyddwch chi'n ychwanegu hyfforddiant ffurfiol at eich doniau.

## Cyflawnwch fwy yn eich swydd

Er nad ydyn nhw'n gwbl angenrheidiol ym mhob sefyllfa waith, mae cymwysterau cydnabyddedig o fantais enfawr i'ch gyrfa. Ond peidiwch â gadael i hyn wneud i chi newid eich meddwl. Mae digon o gyfleoedd i ennill cymwysterau cydnabyddedig.

Pa un a ydych newydd adael yr ysgol, yn ystyried newid gyrfa neu'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl magu plant, mae cyrsiau wedi'u creu er mwyn i chi allu dysgu yn eich pwysau. Gallwch hyfforddi'n rhan amser, yn llawn amser, gartref, yn y coleg neu hyd yn oed wrth i chi weithio. Chi piau'r dewis.

Ond mae un peth yn sicr: pa un a ydych yn bwriadu cael swydd lawn amser, gweithio ychydig oriau'r wythnos, neu sefydlu busnes ar eich pen eich hun, fe ewch chi'n bellach a mwynhau'r gwaith hyd yn oed yn fwy o gael yr hyfforddiant cywir.

Am ragor o wybodaeth am eich cyfleoedd hyfforddi, gweler ein rhestr o gysylltiadau ar dudalen 18, neu archwiliwch eich 'Dewis Dysgu' drwy fewngofnodi ar wefan www.gyrfacymru.com/dewisdysgu neu ffoniwch learndirect ar 0800 100 900

learndirect
Learning advice - Cyngor dysgu

www.playlearngrowwales.gov.uk

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

# Ydych chi yn y sector blynyddoedd cynnar yn barod? Gwellwch eich sgiliau ac anelwch yn uwch yn eich gyrfa

## Ydych chi wedi hyfforddi i Lefel 2 neu 3 mewn cymhwyster cydnabyddedig?

Rydym yn sylweddoli na fydd pawb sy'n darllen y llyfryn hwn yn newydd i'r sector. Yn wir, efallai bod gennych chi swydd rydych chi eisoes yn ei mwynhau yn helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu. Felly ydy'r wybodaeth hon yn berthnasol i chi? Ydy, wir. Efallai eich bod yn ymwybodol y bydd deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno cyn hir ac y bydd y rheolau newydd yn effeithio ar bawb sy'n gweithio yn y sector gofal plant.

Mae hyn yn golygu, erbyn mis Ebrill 2008, y bydd rhaid i'r holl staff uwch a'r rhai sy'n gyfrifol am grŵp o blant fod wedi cael eu hyfforddi hyd at Lefel 3 neu uwch, a bydd angen i 50% o'r holl bobl eraill sy'n gweithio yn y sector gael cymhwyster Lefel 2 o leiaf. Bydd rhaid i bobl sy'n newydd i Warchod Plant gwblhau cwrs Uned Un – Cyflwyniad i Ymarfer Gofal Plant (seiliedig ar y cartref). Yn y pen draw gall hyn arwain at Ddiploma Lefel 3 mewn Gofal Plant seiliedig ar y Cartref.

## Dyfodol disglair i chi a'r plant rydych yn gofalu amdanyn nhw

Mae hyn yn rhan o'r ymgyrch i adeiladu ar y gwaith ardderchog sydd eisoes yn cael ei wneud bob dydd yng Nghymru gan filoedd o weithwyr proffesiynol hynod dalentog. Mae angen i ni godi proffil y sector a denu llu newydd o bobl â sgiliau a chymhelliant ardderchog a fydd yn gwerthfawrogi eu gyrfa gwerth chweil. Hefyd bydd ganddynt yr ymrwymiad, yr egni a'r brwdfrydedd sydd eu hangen i fod yn ddelfrydau ymddwyn cadarnhaol i'n plant ifainc.

Dyma newyddion da iawn i'r rhai ohonoch sydd eisoes yn gweithio gyda phlant. Wrth i'r sector ffynnu, bydd pob cyfle i chi rannu yn y llwyddiant. Drwy ganolbwyntio ar eich sgiliau, gallwch ennill y cymwysterau newydd sy'n helpu i chi fanteisio i'r eithaf ar eich arbenigedd a'ch profiad, ac agor drysau newydd. Mae'n bryd gwneud yn fawr o'ch doniau.

www.playlearngrowwales.gov.uk



Heddiw rydyn ni'n mynd i'r lleuad



i ble bydd eich swydd yn mynd â chi?

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

# Sut dw i'n dysgu?

Os ydych chi'n bendant eich bod wedi dod o hyd i'r yrfa i chi, mae'n bryd dod o hyd i'r cwrs cywir. Gallwch gymryd naill ai'r dewis dysgu seiliedig ar waith, neu gallwch fynd i Goleg Addysg Bellach neu Ganolfan Addysg Oedolion a hyfforddi fel hynny. Neu gallwch hyfforddi gydag unrhyw un o'r sefydliadau Gofal Plant Cenedlaethol sydd wedi'u rhestru ar dudalen 18.

## Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae Prentisiaethau Modern yn rhoi cyfle i chi hyfforddi wrth i chi weithio, felly gallwch ennill yr arbenigedd a'r cymwysterau sydd eu hangen arnoch heb orfod astudio'n llawn amser. Fel Prentis mae'n debygol y bydd eich wythnos waith yn cynnwys lleoliad gwaith am bedwar diwrnod a diwrnod yn y coleg neu gyda darparwr, lle byddwch yn astudio'r gwaith theori sy'n benodol i'ch swydd.

## Colegau Addysg Bellach a Chanolfannau Addysg Oedolion

Hefyd bydd cyfle i chi astudio amrediad o gyrsiau amser llawn a rhan amser yn eich Coleg Addysg Bellach lleol neu Ganolfan Addysg Oedolion. Drwy ddilyn y llwybr dysgu hwn bydd cyfle i chi hefyd dreulio amser mewn lleoliad gwaith go iawn yn cael profiad hanfodol. Ewch i gefn y llyfryn hwn i gael manylion am ble i fynd i gael rhagor o wybodaeth am gyrsiau lleol a chyfleoedd gyrfa.

## Eich cyfeirio at y man cywir

Ar ôl i chi benderfynu sut rydych chi eisiau dysgu, mae'n bryd penderfynu beth sydd angen i chi ei ddysgu, a dyma ble gall pethau fynd ychydig yn gymhleth. Felly, i'ch helpu, rydym wedi rhoi arweiniad byr ar y dudalen gyferbyn i'r cymwysterau y gallech anelu atynt, yn dibynnu ar lefel eich profiad.

Hefyd ceir rhagor o wybodaeth benodol yn ymwneud â'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer swyddi arbennig ar dudalen 12 ymlaen.

Ond cofiwch: mae cyngor cyfeillgar, arbenigol ar gael bob amser i'ch helpu i wneud y dewis cywir. Ceir rhestr o gysylltiadau defnyddiol yng nghefn y llyfryn hwn, a bydd pwy bynnag y byddwch yn siarad â nhw wrth eu bodd yn rhoi'r holl gyngor y gallant i chi.






# Pa gwrs sy'n iawn i chi?

## Lefel 1 – Lefel Rhagarweiniol

Os nad oes gennych unrhyw brofiad yn gweithio gyda phlant, neu ychydig o brofiad yn unig, dyma'r cwrs i chi. Byddwch yn cael lleoliadau gwaith i gael profiad ymarferol neu bydd cyfle i chi hyfforddi wrth i chi weithio mewn rôl prentisiaeth.

## Lefel 2 – Lefel Tystysgrif

Dyma'r cymhwyster sydd ei angen arnoch os ydych eisiau gweithio o dan oruchwyliaeth fel cynorthwy-ydd dosbarth, gweithiwr chwarae, cynorthwy-ydd cylch meithrin, cynorthwy-ydd cylch chwarae neu weithiwr chwarae Ar ôl Ysgol, er enghraifft.

## Lefel 3 – Lefel Diploma

Ar ôl ennill y cymhwyster hwn gallwch weithio a bwrw ati eich hunan, gan gynllunio a threfnu a goruchwylio eraill. Gallech fod yn gynorthwy-ydd dosbarth, nyrs feithrin, neu'n arweinydd cylch chwarae neu gylch meithrin, er enghraifft.

## Lefel 4 – Lefel Rheoli

Mae'r lefel hon ar gyfer ymarferwyr profiadol sy'n gwneud tasgau rheoli. Anelwch at y lefel sgiliau hon i wella eich sgiliau fel rheolwr canolfan integredig, meithrinfa, cylch meithrin neu gylch chwarae.



## Lefel 5 – Gradd Sylfaen ac uwch

Dyma'r cymhwyster a fydd yn eich helpu i gael y sgiliau sydd eu hangen arnoch i fod yn uwch reolwr llwyddiannus. Gallech fod yn rhedeg canolfan blant integredig neu'n arwain adran chwarae awdurdod lleol ac yn rheoli ar lefel strategol.

## Gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Os ydych yn dewis gweithio mewn ysgol neu gylch meithrin cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, mae dwy raglen hyfforddi ar gael. Gall Cam wrth Gam eich helpu i gael dyfarniad wedi'i achredu gan CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ar Lefel 3 a hefyd gall eich helpu i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg. Gall Geiriau Bach eich helpu i gael tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymarfer Cymraeg a Dwyieithog yn y Blynyddoedd Cynnar ar Lefel 4. Hefyd bydd colegau Addysg Bellach weithiau'n cynnig cymwysterau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Dewisiadau gyrfa

Chwe ffordd y gallwch helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

# 1. Meithrinfeydd Dydd

## Beth yw'r swydd?

Gall gweithio mewn meithrinfa fod yn swydd sy'n rhoi llawer o foddhad. Bydd angen egni diddiwedd arnoch a'r gallu i gydymdeimlo'n llwyr ag anghenion plant. Os yw'r nodweddion hyn gennych, byddwch wrth eich bodd wrth i chi dywys y plant o dan eich gofal drwy un o'r camau pwysicaf yn eu datblygiad.

Byddai eich rôl yn cynnwys helpu i gynllunio a threfnu gweithgareddau addysgol a chwarae a gofalu am anghenion personol plant yn ystod prydau bwyd a chyfnodau gorffwys. Wrth i chi symud yn eich blaen, gallech ddod yn Nyrs Feithrin sy'n gyfrifol am gynllunio a threfnu gweithgareddau ac yn y pen draw gallech symud i wneud gwaith rheoli, gan oruchwylio cyllid, cydlynu â rhieni a recriwtio staff.

## Pa gyfleoedd sydd i chi?

Mae pob math o feithrinfeydd dydd yng Nghymru. Caiff rhai eu rhedeg gan grwpiau gwirfoddol neu gymunedol, rhai gan gyflogwyr ac awdurdodau lleol, ac eraill yn cael eu rhedeg yn breifat. Mae meithrinfeydd yn tueddu i ddarparu gofal dydd llawn, addysg a chwarae i blant hyd at bum mlwydd oed, o wyth o'r gloch y bore tan chwech o'r gloch y nos. Mae gweithio mewn meithrinfa'n cynnig llawer o gyfleoedd i chi – pa un a ydych yn chwilio am waith rhan amser neu yrfa lawn amser – a gyda mwy o brofiad a chymwysterau gallwch symud i swyddi goruchwylio a rheoli.

## Pa gymwysterau fydd eu hangen arnoch?

Rhaid i o leiaf 80% o staff nad ydyn nhw'n goruchwylio fod â chymhwyster Lefel 2 o leiaf, gyda hanner y rhain naill ai â Lefel 3 neu'n gweithio tuag ato. Er mwyn symud ymlaen i swydd rheolwr, mae'n rhaid i chi fod â chymhwyster Lefel 3 ac o leiaf 2 flynedd o brofiad. Mae'n bosib y bydd llawer o feithrinfeydd yn fodlon cymryd Cynorthwywyr Meithrin heb gymwysterau, ac maen nhw'n arbennig o awyddus i ddenu staff aeddfed sydd â phrofiad o ofalu am eu plant eu hunain. Ond bydd y rhan fwyaf o gyflogwyr yn disgwyl ymrwymiad gennych i hyfforddi hyd at gymhwyster Lefel 2, ar ôl iddyn nhw eich cyflogi. Os ydych yn bwriadu symud ymlaen ymhellach a derbyn rhagor o gyfrifoldebau, bydd angen i chi brofi bod y sgiliau gennych i wneud y swydd yn dda. Er mwyn dod yn Nyrs Feithrin neu'n arweinydd neu'n rheolwr tîm, er enghraifft, bydd angen i chi fod wedi cymhwyso i o leiaf Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar neu ennill y cymhwyster cyfatebol, Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynar.

"Mae yna lawer o wahanol fathau o waith mewn meithrinfa, felly, mae yna ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eich gyrfa."

*Clare Dyche,*
*Rheolwr Meithrinfa*

# 2. Cylchoedd Chwarae cyn ysgol a Chylchoedd Meithrin

"Mae'n swydd hwyliog a gwerth chweil, ond mae angen i chi fod ag ymrwymiad 100 y cant"

*Caroline Matthews, Rheolwr Cylch Chwarae*

## Beth yw'r swydd?

Mae sesiynau Cylchoedd Chwarae a Chylchoedd Meithrin yn darparu ar gyfer plant o 2-5 oed, fel arfer am 2-3 awr y dydd. Mae Cylchoedd Meithrin yn rhoi cyfle i blant ddysgu a datblygu o brofiadau chwarae o safon drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall Cylchoedd Chwarae a Chylchoedd Meithrin gael eu rhedeg yn breifat neu gan bwyllgor o rieni/gofalwyr lleol ac maen nhw'n aml yn cwrdd mewn cymunedau lleol, ysgolion neu feithrinfeydd a godwyd at y diben.

Maen nhw'n cydnabod bod plant yn dysgu drwy chwarae a chymryd rhan yn weithgar, felly eich rôl chi fel Cynorthwy-ydd Cylch Chwarae fydd helpu Arweinydd y Cylch Chwarae i gyflwyno rhaglen amrywiol o weithgareddau creadigol a dychmygus sy'n gwella potensial dysgu pob plentyn.

## Pa gyfleoedd sydd i chi?

Mae bod yng nghwmni plant ifainc yn llawn hwyl ac yn ysbrydoliaeth. Fel Cynorthwy-ydd Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin bydd cyfleoedd i chi ddatblygu sgiliau gofalu, cyfathrebu a chreadigol pwysig gyda'r plant. Hefyd bydd cyfleoedd i chi symud ymlaen i fod yn Arweinydd Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin lle byddwch yn gyfrifol am oruchwylio a chefnogi'r staff a'r gwirfoddolwyr. Hefyd bydd disgwyl i chi gydlynu â rhieni, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr am y cyfraniad y gallant ei wneud ac sy'n cael eu hannog i gymryd rhan weithgar.



## Pa gymwysterau fydd eu hangen arnoch?

Ym mhob Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin, mae angen i o leiaf hanner y cynorthwywyr fod wedi'u cymhwyso hyd at Lefel 2, felly mae'n fantais amlwg os oes cymwysterau addas gennych. Os ydych eisiau gweithio tuag at fod yn Arweinydd Cylch Chwarae neu Gylch Meithrin, bydd angen i chi fod wedi cymhwyso hyd at Lefel 3 neu gymhwyster uwch yn y Blynyddoedd Cynnar. Hefyd bydd angen i chi fod wedi cael o leiaf dwy flynedd o brofiad gofal plant a bod gennych gymhwyster Cymorth Cyntaf.

Hefyd mae angen i Arweinyddion Cylchoedd Meithrin fod yn rhugl yn y Gymraeg.

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Dewisiadau gyrfa

Chwe ffordd y gallwch helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

# 3. Gwarchodwyr Plant Cofrestredig

## Beth yw'r swydd?

Wrth fod yn warchodwr plant cofrestredig mae cyfle i chi weithio yn eich cartref eich hun yn gofalu am blant pobl eraill o fabanod bychain hyd at blant yn eu harddegau. Fel gwarchodwr plant byddwch yn gofalu am grŵp bychan o blant yn unig ar unrhyw adeg. Felly, byddwch yn dod i adnabod y plant rydych chi'n gofalu amdanyn nhw'n dda iawn a byddwch yn chwarae rhan bwysig yn eu bywydau. Byddwch yn helpu plant i ddatblygu gyda llawer o weithgareddau, cael hwyl gyda nhw wrth iddyn nhw chwarae a rhannu eu llwyddiannau wrth iddyn nhw dyfu. Ar ddiwrnod arferol efallai y byddwch yn mynd â'r plant i'r ysgol; yn ymweld â'r parc ar y ffordd adref; yn peintio lluniau gyda'r plant bychain wrth i'r babi gysgu; yn mwynhau byrbryd ar ôl yr ysgol ac yn darllen stori wrth i chi aros am rieni'r plant.

## Pa gyfleoedd sydd i chi?

Mae'n amhosibl rhoi pris ar fod wrth eich bodd yn eich gwaith. Byddwch yn cael y pleser o fagu plant yn eich cartref eich hunan tra byddwch chi hefyd yn dod â chyflog llawn amser i mewn. Mae llawer o warchodwyr plant hefyd yn rhieni/gofalwyr plant ifainc eu hunain ac yn gofalu am blant eraill ar yr un pryd. Mae llawer o gefnogaeth a chyngor ar gael i chi ddechrau arni a gallech fod yn gymwys i dderbyn peth arian i'ch helpu i sefydlu eich busnes.

## Pa gymwysterau sydd eu hangen arnoch?

Rhaid i bob gwarchodwr plant newydd ddilyn hyfforddiant er mwyn cofrestru. Rhaid i chi gwblhau'r cwrs Cyflwyniad i Ymarfer Gofal Plant (seiliedig ar y Cartref), sydd wedi ei deilwra i ofalwyr plant sy'n gofalu am blant mewn cartref i deulu, yn hytrach nag mewn canolfan, fel meithrinfa. Hefyd bydd angen i chi ennill a chynnal tystysgrif cymorth cyntaf sy'n cwmpasu cymorth cyntaf i blant a babanod ifainc, yn ogystal â chwblhau cwrs hylendid bwyd. Ar ôl i chi ddechrau gweithio fel gwarchodwr plant, cewch gyfle i wneud mwy o hyfforddiant; o sesiynau unwaith yn unig ar bynciau fel chwarae anniben i gymwysterau ffurfiol fel y Diploma mewn Gofal Plant yn y Cartref. Pe hoffech ofalu am blant o dan wyth oed bydd angen i chi gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a dangos eich bod yn cyrraedd safonau cenedlaethol ar gyfer gwarchod plant. Hefyd gallwch ymuno â Chymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, cymdeithas broffesiynol gwarchodwyr plant. Byddwch yn cael y newyddion diweddaraf yn gyson am faterion pwysig yn ymwneud â gwarchod plant, a hefyd gwaith papur y Gymdeithas yn rhatach, fel cytundebau a chofrestri mynychu. Gall hyn fod yn gymorth i ochr fusnes eich gyrfa newydd redeg yn esmwyth.

"Mae'n braf bod yn annibynnol drwy fod yn hunangyflogedig a gwybod y gallaf drefnu'r gwaith o gwmpas gofalu am fy nheulu fy hun hefyd."

*Sandra Griffiths, Gwarchodwr Plant*

# 4. Clybiau ar ôl Ysgol

“Mae gweithio gyda phlant bob amser yn ddiddorol – fyddwch chi byth yn filiwnydd, ond byddwch wrth eich bodd yn y gwaith.”

*Jo Ashurst, Rheolwr Clwb ar ôl ysgol*

## Beth yw’r swydd?

Nod Clybiau Ar ôl Ysgol, Clybiau Brecwast a Chlybiau Gwyliau yw cynnig gofal chwarae i blant o 3-14 blwydd oed. Bydd nifer o’r clybiau hyn yn digwydd yn yr ysgol leol, tra bydd eraill mewn Neuaddau Pentref, Canolfannau Cymunedol neu Meithrinfeydd Dydd. Fel Gweithiwr Chwarae yn un o’r clybiau hyn bydd disgwyl i chi helpu’r Uwch Weithiwr Chwarae i drefnu gweithgareddau hwyliog i’r plant, yn amrywio o gelf a chrefft, gêmau a chwarae corfforol.

Bydd gan lawer o’r clybiau blant o bob oed, o blant bychain iawn i rai yn eu harddegau. Felly bydd angen i chi allu ateb amrywiaeth eang o anghenion. Un eiliad gallech fod yn helpu gyda gwaith cartref, a’r eiliad nesaf gallech fod yn chwarae â blociau adeiladu gyda phlentyn tair oed.

## Pa gyfleoedd sydd i chi?

Nod trefnydd y clwb yw sefydlu lleoliad hamddenol, anffurfiol, lle gall plant ymlacio a chael cyfle i chwarae a bod yng nghwmni eu cyfoedion. Gallwch gael llawer o foddhad drwy helpu i greu amgylchedd o’r fath a chwarae eich rhan drwy gynnig clwb hwyliog, diogel a chyfeillgar. Mae nifer o’r clybiau hyn yn rhedeg yng Nghymru, felly gallai fod digon o gyfleoedd gwaith, yn arbennig gan fod y corff sy’n gyfrifol am gefnogi Clybiau Ar ôl Ysgol yng Nghymru – Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs – yn weithgar iawn o ran helpu i sefydlu clybiau newydd.



## Pa gymwysterau fydd eu hangen arnoch?

Rhaid i Glybiau Ar ôl Ysgol fod ag 1 aelod o staff i bob 8 plentyn a rhaid i’r staff fod â gymwyster Lefel 2 o leiaf. Rhaid i glybiau i blant o dan 8 oed gael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn Gwaith Chwarae. Nid oes angen i glybiau gyda phlant rhwng 8 a 14 oed fod wedi’u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Argymhellir eich bod yn dal tystysgrif Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd a’ch bod wedi gwneud hyfforddiant amddiffyn plant. Os byddwch eisiau dod yn Uwch Weithiwr Chwarae yn y pen draw, bydd angen i chi fod wedi cymhwyso i o leiaf Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae. Hefyd mae angen i Glybiau Ar ôl Ysgol newydd gael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru os ydynt yn gweithredu am fwy na dwy awr y dydd.

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Dewisiadau gyrfa

Chwe ffordd y gallwch helpu plant i chwarae, dysgu a thyfu

# 5. Cynorthwy-ydd Dosbarth

## Beth yw'r swydd?

Fel Cynorthwy-ydd Dosbarth, byddwch yn cefnogi'r athro gyda'i waith bob dydd. Byddwch yn gweithio'n rhan o dîm yn cynllunio gweithgareddau dysgu'r plant, yn darparu amgylchedd ysgogol ac yn cefnogi'r athro, o dan do ac yn yr awyr agored.

Gallai diwrnod arferol gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau darllen a rhifo, helpu gyda gweithgareddau celf, crefft a chwarae a gofalu am blant sy'n drist neu sydd wedi cael damwain. Os ydych chi'n dwlu ar blant, byddwch chi'n dwlu ar y swydd hon.

## Pa gyfleoedd sydd i chi?

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyflogi Cynorthwywyr Dosbarth llawn amser. Mae cyfleoedd i chi weithio mewn ysgol feithrin yn helpu plant o 3-5 oed, mewn ysgol fabanod gyda phlant rhwng 3 a 7 oed, neu mewn ysgol gynradd i blant o 3 oed i 11 oed.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn croesawu gwirfoddolwyr i ddod i mewn i gynnig help un ac un ychwanegol, er enghraifft gyda gwaith darllen a rhifo. Gall hyn fod yn ffordd wych o gael profiad amhrisiadwy. Mantais fawr arall yw mai yn ystod tymhorau'r ysgol yn unig y byddwch yn gweithio, felly os ydych chi'n rhiant/gofalwr gallwch gael swydd sy'n rhoi gwyliau ysgol i chi.

## Pa gymwysterau fydd eu hangen arnoch?

Gallwch ddod yn Gynorthwy-ydd Dosbarth heb gymwysterau cydnabyddedig arall heblaw am eich TGAU, yn enwedig os gallwch gynnig digon o brofiad bywyd go iawn yn gofalu am blant fel rhiant/gofalwr neu fel gwirfoddolwr, er enghraifft.

Ond ar ôl i chi ddechrau mae'n debygol y byddwch yn gwneud hyfforddiant cynefino a chewch eich annog i astudio hyd at gymwyster Lefel 2. Ar ôl ennill cymwyster Lefel 3, gallech symud yn eich blaen a dod yn Gynorthwy-ydd Addysgu Lefel Uwch, felly gallwch gymryd rhagor o gyfrifoldeb a chael cyflog uwch.

Po fwyaf rydych chi'n ei ddysgu, mwyaf y byddwch yn ei ennill.

"Mae elfen o syndod gyda'r swydd bob amser. Mae'n anodd gwybod pa ateb y gall plentyn ei roi neu ble bydd eu dychymyg yn mynd â nhw – neu chi!"

*Catherine Cooper, Cynorthwy-ydd Dosbarth*

# 6. Gwaith chwarae

## Beth yw'r swydd?

Ledled Cymru, mae prosiectau chwarae wedi eu sefydlu i roi rhyddid i blant chwarae yn yr awyr agored mewn amgylchedd ysgogol sy'n cynnig amrywiaeth eang o ddewis lle gall plant ddyfeisio ac estyn eu chwarae eu hunain.

Yn anffodus mae cymdeithas heddiw wedi cyfyngu ar gyfle plant i dreulio amser gyda'i gilydd mewn amgylchedd heb oedolion, ond dyma ble gallwch chi wneud gwahaniaeth mewn gwaith chwarae.

Eich rôl chi fydd hwyluso chwarae plant, gan weithio gyda nhw i greu a rheoli amgylcheddau chwarae lle y gallant, drwy archwilio'n naturiol eu hunain, ddysgu am eu hunain, ei gilydd a'r byd o'u cwmpas. Gallech ddisgwyl bod gyda phlant yn tostio malws melys o gwmpas y tân, yn adeiladu cuddfannau neu'n palu i China. Gallech fod yn gweithio mewn clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae mynediad agored, lleoedd chwarae antur, darpariaeth chwarae symudol, fel ceidwad chwarae mewn lleoedd agored cyhoeddus, neu unrhyw fan lle gall plant chwarae.

"Po fwyaf rydych chi'n ei ddarganfod am ddamcaniaeth chwarae ac effaith eich ymarfer, mwyaf rydych chi'n sylweddoli'r effaith sylfaenol mae'n ei chael ar fywydau plant."

*Stephen Cable, Swyddog Chwarae*

## Pa gyfleoedd sydd i chi?

Diolch byth, mae'r gymdeithas yn dod yn fwy goleuedig o ran pwysigrwydd chwarae o ran helpu plant ifainc i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a dysgu. Mae chwarae bellach yn hawlio'i le ar yr agenda gwleidyddol ac mae hynny'n rhoi mwy a mwy o gyfleoedd i weithio yn y maes diddorol a gwerth chweil yma.

Mae swyddi gwag yn codi'n gyson am Weithwyr Chwarae ledled Cymru, a bydd digon o gyfleoedd i symud ymlaen i swyddi Gweithwyr Chwarae uwch, ond i chi ennill y cymwysterau sydd eu hangen.



## Pa gymwysterau fydd eu hangen arnoch?

Er mwyn bod yn Weithiwr Chwarae, bydd angen i chi fod wedi cael o leiaf Lefel 2 neu 3 mewn Gwaith Chwarae, bydd angen i chi fod yn gyfarwydd â deddfwriaeth gofal plant a bod gennych brofiad blaenorol o weithio gyda phlant. Efallai bydd angen amrywiaeth o ddysgu ychwanegol o Dystysgrifau Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd i Ddefnyddio Llif Gadwyn.

Ond yn ogystal â hyfforddiant ffurfiol, bydd eich sgiliau meddal, fel cyfathrebu, lawn cyn bwysiced. Byddwch yn gweithio mewn amgylchedd lle mae'n hanfodol parchu eich gilydd a lle bydd angen i chi gefnogi plant yn emosiynol ac yn ymarferol. Bydd angen i chi fod yn barod am her, gweithio ym mhob tywydd a chynnig gofal ac ystyriaeth.

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Eich Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (CIS) lleol

# Cysylltiadau defnyddiol

## Mynnwch gael gafael ar y ffeithiau

## Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (CIS)

Am ragor o wybodaeth am yrfaoedd, cyngor am ddarpariaeth hyfforddiant lleol, cyllid a chyfleoedd gwaith cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth Plant lleol.

### Abertawe

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Abertawe**
Uned B3, Parc Technoleg Lakeside, Phoenix Way, Llansamlet, Abertawe, SA7 9FL
01792 517222 cis@swansea.gov.uk www.swanseacommunitydirectory.org.uk

### Blaenau Gwent

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Blaenau Gwent**
Hen Ysgol Fabanod Blaina, Y Stryd Fawr, Blaina, Blaenau Gwent, NP13 3BN
08000 32 33 39 cis@blaenau-gwent.gov.uk www.blaenau-gwent.gov.uk

### Bro Morgannwg

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a Phobl Ifainc Bro Morgannwg (CYPIS)**
Cyngor Bro Morgannwg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddfeydd y Dociau, Subway Road, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 4RT
01446 704 704 cypis@valeofglamorgan.gov.uk
www.valeofglamorgan.gov.uk/cypis

### Caerdydd

**Gwybodaeth Plant a Phobl Ifainc Caerdydd**
2il Lawr, Tŷ Alexander, Excelsior Rd, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF14 3AT
029 2052 0100 CYIS@cardiff.gov.uk www.ifanc.org.uk

### Caerffili

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Bwrdeistref Sirol Caerffili**
Ystrad Fawr, Heol Caerffili, Hengoed, Caerffili, CF82 7SF
01443 863 232 cis@caerphilly.gov.uk www.caerphilly.gov.uk/cis

### Sir Caerfyrddin

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir Caerfyrddin**
Tŷ Limegrove, Limegrove Avenue, Caerfyrddin, Sir Caerfyrddin, SA31 1SW
01267 224 224 childreninfo@carmarthenshire.gov.uk
www.carmarthenshirechildrenspartnership.org.uk

## Casnewydd

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Casnewydd**
10 Commercial Road, Casnewydd, NP20 2PA
0800 328 8483 childrens.informationservice@newport.gov.uk
www.newport.gov.uk/childcare

## Castell-nedd Port Talbot

**Uned EYDCP – Castell-nedd Port Talbot**
9 Y Stryd Fawr, Pontardawe, Abertawe, SA8 4HU
01792 865 914 l.cole@neath-porttalbot.gov.uk www.npteydcp.org.uk

## Ceredigion

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Ceredigion**
Gofal Plant, Plant a Phobl Ifainc, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA
01545 574 187 cis@ceredigion.gov.uk cis.ceredigion.gov.uk

## Conwy

**Cyfnewidfa Gwybodaeth Plant Conwy**
Canolfan Lôn yr Hen Ysgol, Church Works, Llandudno, Conwy, LL30 2HL
01492 876 260 plant.children@conwy.gov.uk www.conwy.gov.uk/children

## Sir Ddinbych

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir Ddinbych**
Yr Hen Garchar, 46 Stryd Clwyd, Ruthun, Sir Ddinbych, LL15 1HP
01824 708 220 childrensinformation@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/childrensinformation

## Sir y Fflint

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir y Fflint**
Canolfan Westwood, Stryd Tabernacl, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2JT
01244 547 017 cis@flintshire.gov.uk
www.flintshire.gov.uk/childrens_information

Gwynedd
Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Plant Gwynedd
Siambrau Victoria, Stryd y Goron, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SY
01286 675 570 Gwybodaethplant@gwynedd.gov.uk www.gwynedd.gov.uk

## Merthyr Tudful

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Merthyr Tudful**
Canolfan Blant Integredig, Heol y Dyffryn, Pentrebach,
Merthyr Tydfil, CF48 4BJ,
01685 727 400 cis@merthyr.gov.uk
www.merthyr.gov.uk

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

Eich Gwasanaethau Gwybodaeth Plant (CIS) lleol

## Mynwy

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir Fynwy**

Adran Blynyddoedd Cynnar, 5ed Llawr, Neuadd y Sir, Cwmbrân, Sir Fynwy, NP44 2XH

01633 644 527 info@monmouthshirecis.org.uk

www.monmouthshirecis.org.uk

## Penfro

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Sir Penfro**

36/38 Y Stryd Fawr, Hwlffordd, SA61 2DA

01437 763 344 childcareinfo@pembrokeshire.gov.uk

www.childrensinformationservice.org

## Pen-y-bont ar Ogwr

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Pen-y-bont ar Ogwr**

3ydd Llawr, Tŷ Derwen, Court Rd, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1BN

0800 1804320 childrensinfo@bridgend.gov.uk www.bridgend.gov.uk

## Powys

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Powys**

Gwalia, Heol Ithon, Llandrindod, Powys, LD1 6AA

0845 130 3839 (Cymraeg) 0845 130 3637 (Saesneg)

cis@powys.gov.uk www.cis.powys.gov.uk

## Rhondda Cynon Taf

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant Rhondda Cynon Taf**

Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Chefnogi Teuluoedd, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, Rhondda Cynon Taf, CF42 4UQ

0800 180 4151 Childinfoserv@rhondda-cynon-taf.gov.uk

www.rctearlyyears.org.uk

## Torfaen

**Torfaen Gwasanaeth Gwybodaeth Plant**

Cwmbrân ICC, Heol Ton, Cwmbrân, NP44 7LE

0800 0196 330 cis@torfaen.gov.uk www.torfaencis.org.uk

## Wrecsam

**Biwro Gwybodaeth Plant**

Canolfan Llyfrgell a Chelfyddydau Wrecsam, Heol Rhosddu, Wrecsam, LL11 1AU

01978 292 094 cib@wrexham.gov.uk www.wrexham.gov.uk/cib

## Ynys Môn

**Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a Phobl Ifainc**

Llyfrgell Llangefni, Lôn y Felin, Ynys Môn, LL77 4TW

01248 752 699 cis@anglesey.gov.uk

www.younganglesey.org.uk www.monifanc.org.uk

Cyngor Gyrfaoedd a Busnes

## Canolfan Byd Gwaith

www.jobcentreplus.gov.uk    0845 6067 890

Mae Canolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cynnwys swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith, Canolfannau Gwaith a swyddfeydd nawdd cymdeithasol.

## Credydau Treth

www.hmrc.gov.uk/menus/credits    0845 300 3900

Dolen i wefan Credydau Treth Cyllid a Thollau ei Mawrhydi sy'n egluro credydau treth ac sydd â chyfrifiannell i'ch helpu i weithio allan faint o arian y mae gennych hawl iddo.

## Cymdeithas Gyrfa Cymru

www.gyrfacymru.com    0800 100 900

Mae'n cynnig gwybodaeth gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad am ddim. Gall cynghorwr gyrfaoedd drafod â chi am lwybrau posibl o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## Llygad Busnes

www.llygadbusnes.org.uk    08457 96 97 98

Gwasanaeth gwybodaeth di-dâl, diduedd i Gymru a grëwyd er mwyn dod o hyd i'r ateb i'ch cwestiynau busnes chi ydy Llygad Busnes. Mae Llygad Busnes yma i helpu a gall eich rhoi chi mewn cysylltiad â chefnogaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

Cyngor yn Ymwneud â Swyddi

## Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

www.clybiauplantcymru.org    029 2074 1000 – Prif Swyddfa

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn hyrwyddo ac yn cefnogi clybiau gofal plant ar ôl ysgol sy'n safonol, fforddiadwy a hygyrch i blant rhwng 3 a 14 oed.

## Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru

www.walesppa.org/cy    01686 624 573

Mae Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru yn rhoi gwybodaeth, hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth i rieni/gofalwyr a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

## Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (National Childminding Association)

www.ncma.org.uk

0845 880 0044 (Prif Swyddfa) 0845 880 1299 (Swyddfa Ranbarthol Cymru)

Elusen genedlaethol a chymdeithas aelodaeth yw Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA) sy'n siarad ar ran gwarchodwyr plant cofrestredig yn Lloegr a Chymru. Mae NCMA yn hyrwyddo gwarchod plant cofrestredig o safon fel y gall plant, teuluoedd a chymunedau elwa ar ofal plant ac addysg o'r radd flaenaf yn y cartref. Mae NCMA yn cynnig gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i aelodau yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda gwarchodwyr plant drwy ei swyddfeydd lleol.

## Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (National Day Nurseries Association)

www.ndna.org.uk

01824 707 823 (swyddfa Cymru) 0870 774 4244 (prif swyddfa)

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) yw'r gymdeithas aelodaeth i feithrinfeydd dydd, gan roi gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i feithrinfeydd ledled Cymru.

## Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant Cymru (Childcare Approval Scheme Wales)

Nestor Primecare Services Ltd

www.childcareapprovalschemewales.co.uk 0844 736 0260

Rhestr o ofalwyr cymeradwy sy'n gweithio yng nghartrefi teuluoedd yng Nghymru yw Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant Cymru. Drwy gofrestru fel gofalwr plant bydd yn profi i'ch cyflogwr fod gennych gymwysterau a hyfforddiant gofal plant a thrwy ddefnyddio gofalwr cymeradwy, gall cyflogwr hyd yn oed gael mynediad i gymorth ariannol drwy elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu drwy ofal plant wedi'i gefnogi gan gyflogwr.

## Cyswllt Cynorthwywyr Dosbarth

Cysylltwch â'ch Awdurdod Addysg Lleol am ragor o wybodaeth.

## Chwarae Cymru

www.playwales.org.uk 029 2048 6050

Mae Chwarae Cymru'n hyrwyddo darpariaeth chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn, gan gefnogi pob agwedd ar waith chwarae wedi'i staffio, datblygu lleoedd chwarae, addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.

## Mudiad Ysgolion Meithrin

www.mym.co.uk 01970 639 639

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cynnig ac yn cefnogi addysg, gofal a datblygiad plant o dan 5 mlwydd oed ac yn rhoi gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth i rieni/gofalwyr a lleoliadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

http://new.wales.gov.uk/cssiwsubsite/cssiw/?lang=cy 01443 848450

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwaith Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn gwneud yn siŵr fod lleoliadau gofal yn cyrraedd y safonau y mae gan blant hawl i'w disgwyl. Mae'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweithredu'n annibynnol arni.

## Cam wrth Gam

www.mym.co.uk 01970 639639

Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol yw Cam Wrth Gam sy'n cynnig hyfforddiant tuag at naill ai NVQ Lefel 2 neu 3 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

www.wlga.gov.uk 029 2046 8600

Mae'n cynrychioli'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ac mae'r tri Awdurdod Tân, y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r pedwar Awdurdod Heddlu yn aelodau cyswllt.

## Cyngor Gofal Cymru

www.ccwales.org.uk

Swyddfa Caerdydd 029 2022 6257 Swyddfa Llanelwy 01745 586 850

Ei nod yw sicrhau y gall plant ac oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol ddibynnu ar weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n gywir, wedi'i gymhwyso'n briodol a'i reoleiddio'n effeithiol.

## Geiriau Bach

www.drindod.ac.uk/geiriaubach/ 01267 676 603

Mae Geiriau Bach yn cynnig cyrsiau i weithwyr blynyddoedd cynnar sydd naill ai heb Gymraeg o gwbl neu sydd heb hyder wrth ddefnyddio'r ychydig Gymraeg sydd ganddynt.

## SkillsActive Cymru

www.skillsactive.com 029 2064 4526

Mae SkillsActive Cymru'n gweithio ledled Cymru'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant gwaith chwarae i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc.

## Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

www.crb.gov.uk 0870 90 90 844

Cysylltwch i gael gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow

# Nodiadau

